# Arwain y gwaith o gefnogi creadigrwydd plant a phobl ifanc

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth arwain y gwaith o gefnogi creadigrwydd plant a phobl ifanc mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc, teuluoedd ac eraill. Mae hyn yn cynnwys cefnogi arsylwadau o ddatblygiad creadigol plant a phobl ifanc ynghyd â hwyluso'r gwaith o ddarparu amgylchedd sy'n hybu ac yn gwella creadigrwydd. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi'r gwaith o fonitro, gwerthuso a chynllunio gwelliannau i hybu datblygiad creadigol plant a phobl ifanc.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sicrhau bod canllawiau neu fframweithiau cwricwlwm ar gyfer creadigrwydd yn cael eu nodi a'u dilyn
2. gweithio ar y cyd ag eraill i ddatblygu gwahanol ddulliau ar gyfer arsylwi ac asesu creadigrwydd plant neu bobl ifanc
3. defnyddio arsylwadau ac adborth gan blant neu bobl ifanc, teuluoedd ac eraill i asesu creadigrwydd
4. eirioli dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn drwy gynnwys plant neu bobl ifanc mewn arsylwadau o'u creadigrwydd
5. sicrhau bod arsylwadau'n canolbwyntio ar y plentyn, yn ddilys ac yn ddibynadwy, gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth amrywiol
6. cefnogi eraill i gydnabod ac ymateb i blant neu bobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol
7. cefnogi eraill i fyfyrio ar ymarfer a gwella'r cymorth creadigol
8. arwain y gwaith o ddatblygu rhaglenni a gweithgareddau sy'n hybu datblygiad creadigol plant neu bobl ifanc
9. cefnogi eraill i nodi'r gwahanol ffyrdd mae plant neu bobl ifanc yn mynegi creadigrwydd
10. sicrhau bod mannau, profiadau a rhyngweithiadau wedi'u cynllunio a'u trefnu'n dda gyda digon o adnoddau ar gyfer mynegiant creadigol
11. sicrhau bod profiadau ymatebol a bwriadol yn benagored er mwyn caniatáu mynegiant creadigol
12. hwyluso a chefnogi arddangosfeydd gweledol a chyffyrddadwy i ysgogi chwilfrydedd a meithrin hunan-barch plant neu bobl ifanc
13. hybu'r defnydd o gyfleoedd i blant neu bobl ifanc fod yn greadigol, a mynd ati i archwilio ac arloesi
14. hybu a gwreiddio'r defnydd o ddyfeisiau ac adnoddau digidol i gefnogi creadigrwydd, gan sicrhau bod adnoddau digidol yn cefnogi yn hytrach na disodli profiadau chwarae cyfoethog yn y byd go iawn
15. modelu disgwyliadau uchel ac agweddau cadarnhaol tuag at greadigrwydd plant neu bobl ifanc
16. sicrhau bod gan bob plentyn neu berson ifanc fynediad at gyfleoedd creadigol
17. datblygu systemau sy'n monitro ac yn gwerthuso datblygiad creadigol plant neu bobl ifanc

18. gweithio gydag eraill i werthuso addasrwydd y ddarpariaeth ar gyfer creadigrwydd i gwrdd ag anghenion a galluoedd plant neu bobl ifanc
19. nodi meysydd i'w gwella a chynllunio ar gyfer datblygu cyfleoedd creadigol yn barhaus
20. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o gefnogi creadigrwydd plant a phobl ifanc
21. annog eraill i fyfyrio a gwerthuso eu harferion eu hunain ac arferion y sefydliad o ran cefnogi creadigrwydd
22. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain y gwaith o gefnogi creadigrwydd plant neu bobl ifanc

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae sicrhau bod gwybodaeth am greadigrwydd ar gael i blant a phobl ifanc ac eraill
2. sut mae cefnogi plant a phobl ifanc â’r newidiadau y gallant eu profi
3. sut mae cefnogi eraill i nodi pwysigrwydd y broses greadigol yn hytrach na’r canlyniad
4. sut mae cefnogi eraill i nodi pwysigrwydd creadigrwydd ym mhob maes sy'n gysylltiedig â datblygiad plant a phobl ifanc
5. sut mae annog creadigrwydd plant a phobl ifanc
6. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi datblygiad creadigol plant a phobl ifanc
7. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol i hybu datblygiad creadigol plant a phobl ifanc
8. yr ystod o ffactorau cymdeithasol, corfforol ac economaidd a allai effeithio ar greadigrwydd plant a phobl ifanc
9. dylanwad diwylliant a chefndir ar ddatblygiad creadigol plant a phobl ifanc
10. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ddatblygiad creadigol plant a phobl ifanc
11. eich rôl o ran arwain gweithdrefnau’r gweithle ar gyfer arsylwi ac asesu, a sut mae'r rhain yn cysylltu â fframweithiau cwricwlwm neu ddatblygu
12. y cyfraniad mae chwarae'n ei wneud at ddatblygiad creadigrwydd
13. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gefnogi creadigrwydd plant a phobl ifanc
14. sut mae darparu mannau a rhaglenni o brofiadau a rhyngweithiadau i gefnogi creadigrwydd a chynaliadwyedd
15. sut mae arwain systemau a gweithdrefnau sy’n cefnogi creadigrwydd plant a phobl ifanc
16. sut mae cefnogi eraill i addasu eu hymarfer a’u hamgylcheddau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cymryd rhan gyfartal mewn cyfleoedd creadigol
17. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i hybu datblygiad creadigol plant a phobl ifanc
18. sut mae gwerthuso effeithiolrwydd cynllunio ar gyfer creadigrwydd
19. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi creadigrwydd plant a phobl ifanc

20. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o gefnogi creadigrwydd plant a phobl ifanc
21. theorïau sy'n berthnasol i arwain y gwaith o gefnogi creadigrwydd plant a phobl ifanc
22. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain y gwaith o gefnogi creadigrwydd plant a phobl ifanc
23. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain y gwaith o gefnogi creadigrwydd plant a phobl ifanc
24. sut y gall eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth arwain y gwaith o gefnogi creadigrwydd plant a phobl ifanc, a sut i fynd i'r afael â hyn
25. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arwain y gwaith o gefnogi creadigrwydd plant a phobl ifanc

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD431

Arwain y gwaith o gefnogi creadigrwydd plant a phobl ifanc

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD431 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cefnogi Creadigrwydd Plant a Phobl Ifanc, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |